

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Gorffennaf 6ed, 2017 yn brydlon am 7-00 y.h.

yn **NEUADD LLANYSTUMDWY**

1. Dewis Cadeirydd cyfarfod heno yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Marian Evans.
2. Dewis Is gadeirydd am y flwyddyn 2017/18.
3. Croesawu'r Cynghorwyr newydd: Ceri Jones, Angela Williams, Aled Lloyd Evans (oherwydd i'w bapur enwebu fynd ar goll) a'r Parch. Aled Davies.
4. Arwyddo Datganiad Derbyn Swydd Is gadeirydd a'r Cynghorwyr.
5. Ymddiheuriadau.
6. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Mynediad Dwyfor.
7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fehefin 1af, 2017.
8. Arwyddo cadarnhad taliad BACS gan y Cadeirydd.
9. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
10. Datgan buddiant personol.
11. Seddau gwag ar y Cyngor; Ward Llanystumdwy, 2 sedd; angen cyfethol.
12. Cyngor Gwynedd.
 1. Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; gwaith adfer angenrheidiol i'r A499 pentref Y Ffôr.
 2. Tim Teithio Llesol Cyngor Gwynedd, ymgynghoriad cyhoeddus.
 3. Ymgynghoriaeth Gwynedd; y bont ar ffordd osgoi Llanystumdwy.
13. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:
 1. Cais Rhif: C17/0565/41/LL – Cais i godi tŷ deulawr farchnad agored; tir at Bro Sion Wyn, Chwilog.
 2. Cais Rhif: C 17/0597/41/RC – Cais i ddiddymu cytundeb 106; Cwm Bach, Llanarmon.
14. Un Llais Cymru:
 - a. Dyddiadau Cyfarfodydd Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru.
 - b. Cwrs Cod Ymddygiad yng Nghaernarfon, nos Iau Gorffennaf 27ain.
15. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

Maes parcio Llanystumdwy.

Rhoslan

- a. Gwelediad ar bont Rhydybenllig, gordyfiant coed yn creu perygl i deithwyr.
- b. Trethdalwr wedi tynnu sylw fod Gwinllan Rhos Ddu bellach wedi ei gwerthu yn bedwar darn. Yn ol a ddeallaf mae cabanau pren wedi eu codi ar rai o'r darnau tir a thoiledau eco/gwyrdd. Oes angen hawl cynllunio i rhain?

Chwilog

Y gwrych heibio talcen siop y cigydd am dai Bro Sion Wyn yn Chwilog.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

Elusen Tai Charles Jones, Llangybi yn awyddus i gael cynrychiolydd o'r Cyngor yma are u pwyllgor.

16. Elusen William Ellis, Llanystumdwy.

Materion Ariannol

17. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

18. Anfonebau angen eu talu:

- a. Criccieth Cleaning Ltd., torri llwybr am Garn Bentyrch, gyferbyn â cheg lôn Abercin a thoriad cyntaf llwybrau Ynysgain Bach, Ty Newydd ac Afonwen; £255.23c + TAW = £306.28c; taliad BACS.
- b. Atkin Groundworks Ltd., Toriad cyntaf llwybr Clawdd Llanw, Bontfechan; £135- + TAW = £162-; taliad BACS.
- c. Richard Hubbard, Ty'n Llwyn, Llannor; chwistrellu canclwm Siapaneaidd ar dir y Cyngor ger pont pentref Llanystumdwy; £40-; taliad BACS.
- ch. Capel MC Pencaenewydd; defnydd o'r festri ar gyfer cyfarfodydd mis Ebrill, Mai a Mehefin y Cyngor; £45-; taliad BACS.
- d. Cyllid a Thollau EM, treth ar enillion y Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2017; £188.40c; taliad siec.
- dd. Cyflog y Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2017; 30 awr x 3 mis x £10.467c yr awr = £942- gross, tynnu £188.40c treth, net £753.60c; taliad siec.
- e. Costau'r Clerc, Ebrill, Mai, Mehefin 2017; £223.32c; taliad siec.

19. Caniatad i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.

20. Caniatad i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd.

21. Pwyllgorau'r Cyngor.

It is possible to get a translation, contact the Clerc.